OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2000 Rhif 2992 (Cy. 192 ) (C. 93 )

# Y COMISIYNYDD PLANT, CYMRU
# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2000

*Wedi'i wneud - - 7 Tachwedd 2000*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 122 o Ddeddf Safonau Gofal 2000(**1**):

**Enwi, dehongli a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2000.

(2) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "y Cyngor" ("*the Council*") yw Cyngor Gofal Cymru a sefydlir yn rhinwedd erthygl 2(2) o'r Gorchymyn hwn;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Safonau Gofal 2000.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru.

**Dyddiau penodedig**

**2.**—(1) 13 Tachwedd 2000 yw'r dydd a benodir i bob un o ddarpariaethau'r Ddeddf a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn ddod i rym.

(2) 1 Ebrill 2001 yw'r dydd a benodir i bob un o ddarpariaethau'r Ddeddf a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn ddod i rym, i'r graddau a bennir yno.

(**1**) 2000 p.14. Mae'r pŵer yn aferadwy gan y Gweinidog priodol. Yn unol â'r diffiniad o "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol") yn adran 121(1) ystyr "y Gweinidog priodol" mewn perthynas â Chymru yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru; mewn perthynas â'r Alban, Gog;edd Iwerddon neu Loegr, ystyr "y Gweinidog priodol" yw'r Ysgrifennydd Gwladol.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**2**)

*D Elis Thomas*

7 Tachwedd 2000

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**2**) 1998 p. 38.

## ATODLEN 1

Erthygl 2(1)

DARPARIAETHAU'R DDEDDF SY'N DOD I RYM AR 13 TACHWEDD 2000

Adran 72 (Comisiynydd Plant Cymru)

Atodlen 2

## ATODLEN 2

Erthygl 2(2)

DARPARIAETHAU'R DDEDDF SY'N DOD I RYM AR 1 EBRILL 2001

Adran 54(1),(3)-(7) (Cynghorau Gofal) i'r graddau y mae'n ymwneud â'r Cyngor

Adran 55 (Dehongli)

Adran 113 (2)-(4) (Pwerau diofyn y Gweinidog priodol) i'r graddau y mae'n ymwneud â'r Cyngor

Adran 114 (Cynlluniau ar gyfer trosglwyddo staff) i'r graddau y mae'n ymwneud â Gorchymyn gan y Cyfrin Gyngor, neu argymhelliad i'w Mawrhydi i wneud Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor, o dan Adran 70 o'r Ddeddf (Dileu y Cyngor Canolog Addysg a Hyfforddiant mewn Gwaith Cymdeithasol) yn cynnwys cynllun ar gyfer trosglwyddo staff o'r Cyngor Canolog Addysg a Hyfforddiant mewn Gwaith Cymdeithasol i'r Cyngor

Atodlen 1 i'r graddau y mae'n ymwneud â'r Cyngor

---

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn pennu dydd i rai o ddarpariaethau penodol Deddf Safonau Gofal 2000 ("y Ddeddf") ddod i rym. Mae'r Gorchymyn yn gymwys i Gymru.

Mae'r Gorchymyn yn darparu y daw'r darpariaethau canlynol yn Rhan V o'r Ddeddf i rym ar 13 Tachwedd 2000:

(a) adran 72, sy'n sefydlu swydd Comisiynydd Plant Cymru;

(b) Atodlen 2, sy'n gwneud darpariaeth ynghylch rhai o swyddogaethau gweithredol penodol y swydd megis ei statws, penodi iddi a'i thâl, ei phwerau cyffredinol, ei chyfrifon, ei hatebolrwydd a'i hadroddiadau.

Mae'r Gorchymyn yn darparu y daw'r darpariaethau canlynol yn Rhan IV o'r Ddeddf i rym ar 1 Ebrill 2001 i'r graddau y maent yn ymwneud â Chyngor Gofal Cymru ("y Cyngor"):

(a) adran 54(1), (3)-(7), sy'n sefydlu corff corfforaethol sydd i'w alw'n Gyngor Gofal Cymru; yn darparu ei ddyletswydd gyffredinol; ac yn darparu y bydd, wrth arfer ei swyddogaethau, yn gweithredu yn unol ag unrhyw gyfarwyddiadau, neu o dan unrhyw ganllawiau cyffredinol, a roddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru;

(b) adran 55 sy'n gwneud darpariaeth ynghylch dehongli Rhan IV o'r Ddeddf;

(c) adran 113 (2)-(4) sy'n darparu bod gan y Cynulliad bwerau diofyn mewn perthynas â'r Cyngor;

(ch) adran 114 sy'n gwneud darpariaeth ynghylch Gorchmynion y Cyfrin Gyngor a wneir o dan adran 70 o'r Ddeddf sy'n trosglwyddo staff o'r Cyngor Canolog Addysg a Hyfforddiant mewn Gwaith Cymdeithasol i'r Cyngor;

(d) Atodlen 1 sy'n gwneud darpariaeth ynghylch rhai o swyddogaethau gweithredol penodol y Cyngor megis ei statws, ei bwerau cyffredinol, ei aelodaeth a phenodi iddo, ei weithdrefnau, ei staff, ei gyfrifon a'i adroddiadau.

## NOTE AS TO EARLIER COMMENCEMENT ORDERS

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Daethpwyd â darpariaethau canlynol y Ddeddf i rym mewn perthynas â Chymru, yn ogystal â Lloegr, drwy O.S. 2000/2544 (C.72).

Yn ogystal â'r darpariaethau a restrir isod, daethpwyd ag amryw ddarpariaethau eraill y Ddeddf i rym mewn perthynas â Lloegr drwy O.S. 2000/ 2795 (C. 79 ).

| *Dyddiad cychwyn/Date of commencement* | *Darpariaeth/provision* |
|---|---|
| Adran/section 96 (yn rhannol) (partially) | 15.9.00 |
| Adran/section 99 | 15.9.00 |
| Adran/section 80(8) (yn rhannol) (partially) | 2.10.00 |
| Adran/section 94 | 2.10.00 |
| Adran/section 96 (gweddill) (remainder) | 2.10.00 |
| Adran/section 100 | 2.10.00 |
| Adran/section 101 | 2.10.00 |
| Adran/section 103 | 2.10.00 |
| Adran/section 116 | 2.10.00 |
| Adran/section 117(2) | 2.10.00 |
| Atodlen/Schedule 4 (yn rhannol) (partially) | 2.10.00 |
| Atodlen/Schedule 6 (yn rhannol) (partially) | 2.10.00 |